


PUMP PRYSUR

Addasiad Cymraeg o gyfres enwog 'The Famous Five' gan Enid Blyton

Dyma eich cyfle i fwynhau anturiaethau
Siôn, Dic, Jo, Ani a Twm - y Pump Prysur.



Stori fer
wreiddiol gan
Enid Blyton

gydag
arlunwaith
lliw llawn



Ar ôl i'r **Pump** weld hogyn yn cael ei
herwgipio ar y traeth, maen nhw'n
benderfynol o ddod o hyd iddo. Ond **ble yn**
y byd mae'r hogyn? Fydd Twm y ci yn
gwybod yr ateb?




£5.99

Cyfres ddarllen ar gyfer darllenwyr ifanc sy'n


Enid Blyton

PUMP PRYSUR




GO DDA,
TWM

PUMP PRYSUR



PUMP PRYSUR



Twm

Ani

Dic

Siôn

Jo

Y fersiwn Saesneg

Hawlfraint y testun © Enid Blyton, 1956

Hawlfraint yr arlunwaith © Jamie Littler, 2014

Mae llofnod Enid Blyton yn nod masnach sydd wedi'i gofrestru gan Hodder & Stoughton Cyf Cyhoeddwyd y testun gyntaf ym Mhrydain Fawr yn nhrydydd rhifyn Cylchgrawn Blyneddol Enid Blyton, Rhif 3, yn 1956. Mae hefyd ar gael yn *The Famous Five Short Stories* sydd wedi'u cyhoeddi gan Lyfrau Plant Hodder. Wedi'i gyhoeddi gyntaf yn yr argraffiad hwn ym Mhrydain Fawr gan Lyfrau Plant Hodder yn 2014.

Mae hawliau Enid Blyton a Jamie Littler wedi'u cydnabod fel Awdur a Dylunydd y gwaith hwn. Mae eu hawliau wedi'u datgan dan Ddeddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Mae *Hodder Children's Books* yn rhan o *Hachette Children's Books*.

Hachette UK Limited, 338 Euston Road, Llundain NW1 3BH.

www.hachette.co.uk

Y fersiwn Cymraeg

Y cyhoeddiad Cymraeg © Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr, Llanfihangel Genau'r Glyn,

Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ

Cyhoeddwyd gan Atebol Cyfyngedig yn 2015

Addaswyd i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros

Dyluniwyd gan Owain Hammonds

Golygwyd gan Adran Olygyddol Cyngor Llyfrau Cymru

Cyhoeddwyd gyda chymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru

Cedwir y cyfan o'r hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopiō, recordio neu drwy gyfrwng unrhyw system storio ac adfer, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Enid Blyton PUMP PRYSUR GO DDA, TWM



Addasiad Cymraeg gan Manon Steffan Ros
Arlunwaith gan Jamie Littler



Cyfres Ddarllen Lliw'r Pump Prysor

Yr Antur Hanner Tymor

Mae Gwallt Jo yn Rhy Hir

Go Dda, Twm

Pnawn Diog





'Wyt ti'n barod i ddod i'r traeth, Ani?'

bloeddiodd Jo wrth sefyll ar waelod y grisiau.

**'Rydan ni i gyd yn aros
amdanat ti. BRYSLA!'**




Yn sydyn, daeth Mr Curig, tad Jo, i ddrws y swyddfa. **'Joanna! Wnei di roi'r gorau i floeddio?'** Sut yn y byd fedra i weithio? Er mwyn dyn, ewch allan o'r tŷ!

'Rydan ni ar fin mynd, Dad – efo picnic i ginio, felly wnawn ni ddim tarfu arnoch chi. Dwi'n gwybod bod gennych chi lawer o waith i'w wneud – hen dro ei bod hi'n amser gwyliau a'n bod ni dan draed!'

Ebychodd Mr Curig cyn diflannu i'w swyddfa. Daeth mam Jo ati â dau becyn mawr o frechdanau.





‘O, bobol bach – dy dad oedd yn gweiddi eto?’ holodd. ‘Hidia befo. **Dydi o ddim yn bwriadu bod mor flin.** Mae ganddo fo lawer iawn o waith ar hyn o bryd, yn gwneud rhyw arbrawf i’r **gwyddonydd** sy’n gweithio efo fo – **Proffesor Huws.** Mae o’n aros yng **Ngwesty’r Cei** ym mhentref **Curig.** Rŵan, dyma’ch brechdanau – a bisgedi ac afalau. Ewch â photeli o lemonêd o’r pantri.’

Rhuthrodd Ani i lawr y grisiau, ac aeth y **Pump**, yn eu dillad nofio, i’r traeth i nofio a chwarae yn y tywod.

Dim ond tri arall oedd yno – **dau ddyn** a **bachgen** unig yr olwg. Daeth Siôn o hyd i ogof gysgodol a rhoi'r bwyd ar silff fach yn y graig.

'Be am fynd i nofio'n syth?' meddai.
'Edrychwch – mae Twm am fynd at y **ci** yna welon ni ddoe, yr un mawr hyll doedden ni ddim yn hoffi ei olwg o. **Braidd yn arw ydy'r ddau ddyn** sy biau fo hefyd! Fyddwn i ddim yn licio'u cyfarfod nhw ar noson dywyll!'






‘Wel, mae Twm yn **ffrindiau**
mawr efo’u ci nhw,’ meddai Jo wrth **syllu**
ar y cŵn yn rasio ar hyd y tywod ac yn cyfarth
yn llawen.



'Edrychwch,' meddai Dic. 'Mae'r hogyn yna'n dod yma. Be' am i ni ofyn iddo fo nofio efo ni gan ei fod o ar ei ben ei hun? **Gwylia, boi** – paid â chael dy daro i'r llawr gan ein ci ni!'




Rasiodd Twm yn llawen, gan
reddeg ar ôl y ci arall, a syrthiodd y
bachgen wrth i'r cŵn droi o'i
gwmpas. Trodd Twm mewn syndod
 a gweld y bachgen *yn rholio ar y tywod.*

Cyfarthodd ei ymddiheuriad, rhedeg at y
 bachgen a'i lyfu.

Roedd ar y bachgen ofn
Twm yn ofnadwy.
Sgrechiodd mewn
 braw, a rhedodd Siôn
 ato.



'Dim ond bod yn gyfeillgar mae Twm.
Mae o eisiau **ymddiheuro** am dy daro di
i'r llawr. Fyddai Twm **byth** yn dy frifo di!
Tyrd, cwyd – roedden ni ar fin gofyn oeddet ti
eisiau dod i nofio efo ni.'



'O,' meddai'r bachgen
gan sefyll ac ysgwyd y tywod
oddi ar ei ddillad. Edrychai tua naw neu
ddeg oed. 'Diolch – byddwn i wrth fy modd.
Owain Huws ydw i, a dwi'n aros yng
Ngwesty'r Cei.'


‘Mae’n rhaid bod dy dad yn ffrind i dad Jo.
Curig ydi ei enw fo – **Carwyn Curig** – ac mae
o’n wyddonydd. Mae dy dad di’n wyddonydd
hefyd, tydi?’

‘**Ydi** – un da iawn,’
meddai Owain yn falch. ‘Ond mae o’n
poeni’n arw.’

‘Pam? Be’ sy’n bod?’ holodd Jo.

‘Wel, mae o’n gweithio ar ryw arbrawf
pwysig,’ meddai Owain, ‘ac mi gafodd **lythyr**
cas bore ’ma. Roedd y llythyr yn dweud os na
fyddai Dad yn cytuno i **rannu gwybodaeth** am
yr hyn mae o’n gweithio arno fo, y **byddwn i’n**
cael fy **herwgipio!**’






'Hen lol!' wfftiodd Siôn. **'Paid â phoeni am hynna!** Mi ddywedwn ni wrth Twm am ofalu amdanat ti. Sbia arno fo'n chwarae efo'r mwngrel mawr hyll yna! Mwngrél ydi Twm hefyd, ond rydan ni'n meddwl ei fod o'n brydferth!'

‘Mae o braidd yn fawr,’
meddai Owain yn betrus wrth i Twm redeg
at y criw, yn fyr ei anadl.



Aeth y ci arall yn ôl at y ddau
ddyn, oedd wedi chwibanu arno er
mwyn cael ei sylw.



'Dewch – awn ni i nofio
meddai Dic.

'Fedra i **ddim** nofio,'
eglurodd Owain. 'Byddai'n gr
os tasa chi'n medru fy nysgu



'lawn. Mi wnawn ni ar ôl i
ni nofio am ychydig,' meddai Ani.
'Awn ni i'r dŵr – **dewch!**'

Ymhen dim o dro roedd y criw, a Twm hefyd, yn cael amser hyfryd yn sblasio ac yn chwerthin yn y tonnau, tra oedd Owain yn padlo yn y dŵr bas.




Yna, yn sydyn,
gwaeddodd Siôn a
phwyntio at y traeth. **'Sbiwch!**
Be' sy'n digwydd yn fan'cw? **Hei!**




Syllodd y **Pump**, a gweld rhywbeth
annisgwyl iawn. Roedd y **ddau ddyn**
oedd berchen y ci mawr yn **llusgo**
Owain o'r dŵr.

'Maen nhw'n ei **herwgipio** fo!
Ydach chi'n cofio fo'n sôn am y llythyr
bygythiol gafodd ei dad bore 'ma?
Brysiwch - mi driwn ni roi **stop**
arnyn nhw. **TWM** - tyrd, reit
sydyn!'



PENNOD PEDWAR



Nofiodd y criw **i'r lan** a gwisgo'u sandalau'n gyflym.

'Maen nhw wedi mynd â fo at y
clogwyn. Maen nhw ar y **top** –
sbiwch!' gwaeddodd Siôn. 'Ar eu holau
nhw, Twm!'






Ond doedd Twm, hyd yn
oed, **ddim yn ddigon chwim** i'w
dal. Siôn a Twm oedd y cyntaf i
gyrraedd yno – mewn pryd i weld
car yn gwibio i ffwrdd.

Roedd y **ci mawr** yn rhedeg ar ôl y car.

'Pam nad aethon nhw â'r ci yn y car
hefyd?' holodd Dic.





‘Efallai ei fod o’n mynd **yn sâl mewn ceir,**’ meddai Ani. ‘Beth bynnag, mae’n siŵr ei fod o’n gwybod i ble mae’r dynion yn mynd. Os nad ydyn nhw’n gyrru’n rhy gyflym, bydd y ci’n **gallu dilyn** y car bob cam.’

‘Dwi wedi nodi **rhif y car**, p’run bynnag,’ meddai Dic.

‘Gwrandewch – dwi’n meddwl bod **Ani yn llygad ei lle** pan mae’n dweud bod y ci yn gwybod i le mae’r dynion yn mynd,’ meddai Siôn. ‘Fydd o **ddim yn mynd yn bell iawn** os oes raid i’r ci **redeg** ar ôl y car.’

Doedd Twm ddim yn gwranddo. Snwffiodd y ddaear dan ei draed, ac yn sydyn dechreuodd **redeg** ar hyd y **lôn**, ei **drwyn** yn agos at y llawr.


Ebychodd Jo. 'Wn i! Mae Twm yn medru arogl i'r **ci arall**. Mae o'n nabod yr arogl, ac **yn ei ddilyn!**

'Ti'n iawn! Tybed fydd o'n gallu ei ddilyn yr holl ffordd?' holodd Siôn. 'Efallai y bydd o'n ein harwain ni **at Owain!** Siarada efo fo, Jo. Mae o'n deall pob gair ti'n ei ddweud!'

'Twm, gwranda!' meddai Jo, gan bwyntio at ôl pawennau yn y tywod. '**Dilyna'r ci arall, Twm!** Wyt ti'n deall?'


Cododd Twm ei ben a sylly ar Jo, ei glustiau wedi'u codi. *Oedd, roedd o'n deall.*





Yna, a'i drwyn ar y ddaear, brysiodd Twm
i lawr y lôn gan ddilyn arogl y ci arall. **Roedd
ganddo drwyn arbennig iawn!**

'Dewch,' meddai Dic. 'Bydd Twm yn ein
harwain i ble bynnag mae'r dynion
wedi mynd ag Owain.'



Yn ofalus iawn, **dilynodd** Twm yr arogl
i lawr y lân o'r clogwyn. Trodd i'r chwith, gan
ruthro ar hyd lân fach, gwibio i'r dde, ac yna i'r
chwith.

Arhosodd
Twm wrth y
goleuadau traffig,



a phan
roedd y
golau'n
wyrdd,



croesodd
y lôn,
cyn brysio
drwy'r dref gan
ddilyn ei
drwyn!




Dilynodd y plant yn eu
gwisgoedd nofio, ac Ani, **druan**
yn brin o anadl.



Yr ochr arall i'r dref,
trodd Twm i lawr lôn fach
ar y chwith, yn **dal i**
snwffian. Rhedodd y
pedwar ar ei ôl.

'Bydd raid i mi orffwys cyn hir,'
cwynodd Ani'n fyr ei gwynt.



‘Hei, dyna’r **car** aeth â’r **hogyn!**’

meddai Dic yn sydyn wrth iddyn nhw fynd heibio i garej oedd â char du y tu allan iddi. ‘A dyna’r dynion! **Ond fedra i ddim gweld Owain** – a does dim golwg o’r ci mawr, chwaith.’

‘Wel, mae’n rhaid eu bod nhw wedi **cuddio Owain** yn rhywle wrth y garej, ac wedi dod yma i nôl petrol,’ meddai Siôn. ‘I ffwrdd â ti, Twm – rwy’ti’n gwneud yn dda. Rhaid bod y **ci’n** cadw llygad ar yr **hogyn**. Tasa unrhyw un yn mynd ar gyfyl y lle, **byddai’r ci yn siŵr o ymosod!**’


'Dydw i **ddim isio** i Twm gael ei **frifo**,' meddai Jo.

'Na, byddai hynny'n ofnadwy,' cytunodd Siôn, **ond yn ei flaen** yr aeth **Twm**, hyd yn oed ar ôl i Jo alw arno.

'Mae o mor benderfynol!' meddai Jo yn flin. 'Unwaith mae o ar **drywydd rhywun** neu rywbeth, fedr **dim byd** ei **rwystro**. Dwi'n mynd ar ei ôl o rhag ofn iddo fo fynd i drafferth!'

'Sbiwch,' meddai Ani. 'Mae Twm wedi mynd drwy'r giât ac i mewn i'r cae. Mae 'na **sied** yn y pen pellaf. Tybed ydi Owain yn y sied, a'r ci mawr yn ei wyllo?'






Yn sydyn, **stopiodd** Twm a dechrau **ysgyrnygu**. Rhedodd Jo ato a chydio yn ei goler. Ond **rhedodd** Twm o'i gafael, gwibio at y sied a chrafu ar y drws pren. Yn syth bìn, daeth sŵn cyfarth **gwyllt** o'r sied, ac yna llais yn gweiddi.

**'Help! Help! Maen
nhw wedi 'nghloi i yma!'**



PENNOD CHWECH




‘Chwarae teg i **Twm** am ddilyn oglau’r ci yr holl ffordd yma!’ meddai Jo. ‘Ond rhaid i ni beidio gadael iddo fo dorri’r drws. Bydd y ci arall yn siŵr o ymosod arno fo, ac arnon ninnau hefyd! Be’ wnawn ni?’

Roedd hi'n amlwg mai gwylio Owain yn ofalus oedd **gwaith y ci**, ac y byddai'n **gwylltio'n gacwn** efo unrhyw un neu unrhyw beth fyddai'n tarfu arno.

'Twm! GAD LONYDD I'R DRWS YNA!' gwaeddodd Jo. **'MI FYDD O'N TORRI, A DYN A WYR BETH FYDD YN DIGWYDD WEDYN!'**


Wrth i'r ddau gi gyfarth **yn wyllt** a **neidio** ar y drws o'r ddwy ochr, **craciodd** a chrynodd y pren, a chwalodd rhan isaf y drws!





‘Ani! Jo! **Dewch efo fi!**’ meddai
Siôn. ‘Falle fydd y ci mawr yn ymosod mewn
eiliad! **Rhedwch!** Mi ddringwn ni’r
goeden yna. **Brysiwch,** er mwyn dyn!’

Llamodd y tri
yn llawn ofn i
fyny’r goeden a
llechu yn y
canghennau.



A green door is shown being smashed open by a bulldog. The door is splintered and broken, with many sharp fragments flying out. The bulldog is orange and white, wearing a blue spiked collar, and is shown in a dynamic, jumping pose towards the door. The background is white with some green grass at the bottom.

CRASH!

Disgynnodd y drws i'r llawr,
wedi'i dorri yn ei
hanner. Neidiodd y
ci mawr **allan** o'r
sied.

Ond chymerodd o **ddim sylw o Twm.** Rhedodd at y goeden a sefyll yno'n ysgyrnygu'n flin.

Syllodd Twm mewn syndod. Pam oedd y ci'n ysgyrnygu ar y plant?
Camgymeriad oedd y cyfan, penderfynodd Twm. Rhaid bod y ci wedi drysu.

Rhedodd at y goeden, a chyfarth fel petai'n dweud, *Mae'n iawn. Dewch i chwarae efo ni!* Yna aeth Twm at y ci mawr, a chyfarth wrth hwnnw hefyd.





Cyfarthodd y ci mawr yn uchel a neidio,
ac yna trodd at Twm fel petai'n ateb wrtho,
*lawn – ti am chwarae gêm? A finnau hefyd! Ti
oedd ar y traeth bore 'ma, yntê? Wel tyrd,
mi wnawn ni chwarae!*

Er mawr syndod i'r plant, dechreuodd y
cŵn chwarae'n llawen gyda'i gilydd yn y cae!




PENNOD SAITH



‘Dwi’n teimlo braidd yn wirion i fyny fan hyn,’
meddai Dic gan ddringo i lawr. ‘Dewch – mae’r
frwydr drosodd. Mae’r ddau gi yna’n ffrindiau
gorau. Awn ni i **achub Owain** o’r sied.’

Gyda'r bachgen **ofnus** yn eu plith,
dechreuodd y criw gerdded yn **betrus**
o'r cae.




Chymerodd y cŵn **ddim sylw** o
gwbl. Roedd y ddau'n smalio cwffio, a Twm
yn cael **amser gwych!**

'**Sbiwch** – mae 'na **fws** yn mynd i bentref **Curig!**' meddai Siôn, wrth ei fodd. 'Awn ni ar y bws a mynd ag Owain i le **diogel**. Bydd raid i Twm gerdded. Mae o'n siŵr o wneud i'r ci mawr **anghofio** popeth am warchod Owain!'



Ymhen dim, roedd y criw yn ôl yn y pentref. Roedd Owain yn **welw iawn**, ond pan esboniodd Siôn fod yr holl beth wedi bod yn **dipyn o antur**, cododd ei galon a dechrau brolio!



‘Ges i fy **herwgi**pio! Be’ fydd yr hogiau yn yr ysgol yn ei ddweud? Ew, roedd gen i ofn! Gawn ni fynd i chwilio am Dad?’

Roedd Proffesor Huws yn **hapus iawn** i weld ei fab eto – roedd o wedi dweud wrth yr **heddlu** fod Owain wedi **diflannu**. Rhoddodd Dic **rif car** y dynion i’r heddlu.

‘Rydach chi’n siŵr o ddod o hyd iddyn nhw!’ meddai. ‘Ond nid mor gyflym â Twm – **defnyddio**’i drwyn wnaeth o, a **trwyn da iawn** ydi o hefyd!’

‘**Wff!**’ cytunodd Twm, a’i dafod yn hongian allan o’i geg.

'Mae o'n dweud ei fod o'n boeth ac eisiau diod,' eglurodd Jo. 'Mi wnawn ni brynu hufen iâ iddo fo.'

'Mi gawn ni'r **hufen iâ mwyaf** sydd yn siop y pentref,' meddai'r proffesor, gan fwytho pen Twm. 'Byddwn i wrth fy modd yn cael un fy hun.'

'Byddwn i wrth fy modd yn cael pedwar hufen iâ,' meddai Owain. 'Gobeithio'ch bod chi'n teimlo'n hael, Dad. Ew, mae **Twm yn gi rhyfeddol!**

'Roedden ni'n gwybod hynny'n barod,' meddai Jo. '**Tyrd, Twm. HUFEN IÂ!**



Gobeithio eich bod wedi
mwynhau'r stori fer yma.


Os ydych chi am ddarllen mwy am
helyntion y **PUMP PRYSUR** yna
ewch i **atebol.com** am fwy o
wybodaeth am y teitlau diweddaraf.



PUMP PRYSUR

Addasiad Cymraeg o gyfres enwog 'The Famous Five' gan Enid Blyton

Dyma eich cyfle i fwynhau anturiaethau
Siôn, Dic, Jo, Ani a Twm - y Pump Prysur.



Stori fer
wreiddiol gan

Enid Blyton

gydag
arlunwaith
lliw llawn



Ar ôl i'r **Pump** weld hogyn yn cael ei
herwgipio ar y traeth, maen nhw'n
benderfynol o ddod o hyd iddo. Ond **ble yn**
y byd mae'r hogyn? Fydd Twm y ci yn
gwybod yr ateb?

Cyfres ddarllen ar gyfer darllenwyr ifanc sy'n
mwynhau darllen am anturiaethau'r criw enwog.
Pleser pur!

www.atebol.com



@ebol